
Rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos

Cais am Dystiolaeth

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 16 Gorffennaf 2020

Dyddiad Cau ar gyfer derbyn Ymatebion: 24 Medi 2020

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos	3

Atodiad

A1. Cwestiynau'r Cais am Dystiolaeth	16
A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	22
A3. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori	24
A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad	25
A5. Darpariaethau'r AVMSD sy'n berthnasol i wasanaethau llwyfannau rhannu fideos	26

1. Trosolwg

- 1.1 **Rydyn ni'n gofyn am dystiolaeth a gwybodaeth ynghylch y gofynion newydd a fydd yn berthnasol i lwyfannau rhannu fideos.**
- 1.2 Mae llwyfannau rhannu fideos (VSPs) yn fath o wasanaeth fideos ar-lein lle gall defnyddwyr lwytho fideos i fyny a'u rhannu. Mae VSPs yn caniatáu i ddefnyddwyr ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gynnwys a nodweddion cymdeithasol, ac maen nhw'n arbennig o boblogaidd ymysg pobl ifanc. Mae 90% o oedolion a 98% o blant 8-15 oed sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd wedi defnyddio VSP yn ystod y flwyddyn ddiwethaf¹.
- 1.3 Bydd Ofcom yn cael pwerau newydd yr hydref hwn i reoleiddio VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU. Bydd hyn yn cynnwys dyletswydd i sicrhau bod gan VSPs fesurau priodol ar waith i ddiogelu pobl ifanc rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol, a phob defnyddiwr rhag cynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n cymell casineb a thrais. Hefyd bydd angen i wasanaethau sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau o ran hysbysebion.
- 1.4 Mae'r ddogfen hon yn nodi cefndir a chyd-destun deddfwriaethol rheoleiddio VSPs yn y DU yn y dyfodol, a throsolwg o'r fframwaith rheoleiddio VSPs. Mae hefyd yn nodi dull Ofcom o reoleiddio VSPs, sy'n seiliedig ar rai egwyddorion craidd: diogelu a sicrwydd; cymesuredd; y gallu i addasu; tryloywder; gorfodaeth; ac annibyniaeth.
- 1.5 Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ymatebion yw 5pm dydd Iau 24 Medi 2020.

Pam mae Ofcom yn gwneud cais am dystiolaeth?

- **Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau mai Ofcom fydd y rheoleiddiwr ar gyfer VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU.** Bydd hon yn drefn dros dro tan fod y fframwaith Niwed Ar-lein newydd yn dod i rym.
- **Rhaid i Aelod-wladwriaethau weithredu deddfwriaeth Ewropeaidd ddiwygiedig o'r enw Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMSD) yr hydref hwn.** Mae hyn yn cynnwys y DU yn ystod cyfnod pontio Brexit.
- Mae'r AVMSD ddiwygiedig hefyd yn diweddarar gofynion ar gyfer darlledwyr a gwasanaethau rhaglenni ar-alw, sydd eisoes yn cael eu rheoleiddio gan Ofcom.
- **Bydd rhaid i VSPs gael mesurau priodol ar waith i ddiogelu pobl ifanc rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol, a phob defnyddiwr rhag cynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n cymell casineb a thrais.** Mae'r AVMSD yn nodi'r rhestr o fesurau y dylai VSPs ystyried eu rhoi ar waith (yn dibynnu ar natur eu gwasanaeth a'u sylfaen defnyddwyr). Mae'r mesurau hyn yn cynnwys, er enghraifft, sefydlu a gweithredu telerau ac amodau, dulliau fflagio ac adrodd, rheolaethau rhieni, dulliau sicrwydd oedran, a swyddogaethau cwyno.

¹ Ofcom, [Adroddiad Ein Gwlad Ar-lein 2020](#), 23 Mehefin 2020

- **Bydd Ofcom yn llunio canllawiau ar gyfer VSPs ar y rhestr o fesurau a nodir yn y fframwaith statudol newydd.** I lywio ein canllawiau, rydyn ni'n gofyn am dystiolaeth a gwybodaeth ynghylch sut mae'r mesurau hyn yn cael eu defnyddio a'u gweithredu ar hyn o bryd. Rydyn ni hefyd yn gofyn am safbwyntiau a thystiolaeth gynnar ynghylch nifer o bynciau eraill, er mwyn llywio ein dull rheoleiddio cyffredinol a meysydd eraill lle byddwn yn cyhoeddi canllawiau. Mae'r cwestiynau hyn ar gael yn Atodiad 1.
- **Drwy'r Cais hwn am Dystiolaeth, rydyn ni'n awyddus i ymgysylltu â'r diwydiant a phartïon eraill sydd â diddordeb.** Mae trefniadau rheoleiddio VSPs o'r natur hon yn newydd a heb eu profi, a hynny yn y DU ac yn fyd-eang. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio'n adeiladol gydag amrywiaeth o gyfranwyr i ddatblygu sail gadarn ar gyfer rheoleiddio ar-lein. Byddwn yn croesawu safbwyntiau gan llwyfannau, defnyddwyr, arbenigwyr a sefydliadau eraill sydd â diddordeb ar arferion da, gallu presennol gwasanaethau, problemau a heriau, er mwyn cynyddu ein dealltwriaeth o'r sector VSP ac o'r risgiau o niwed ar y llwyfannau hyn.
- **Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno'r fframwaith statudol newydd mewn deddfwriaeth yr hydref hwn, ac ar ôl ei basio bydd y gofynion newydd yn dod i rym ar unwaith.** Fodd bynnag, rydyn ni'n ymwybodol o'r angen am gyfnod gweithredu i'r diwydiant. Byddwn yn gweithio gyda VSPs wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau newydd i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu, a byddwn yn cyhoeddi canllawiau rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau flwyddyn nesaf.
- **Mae'r Llywodraeth wedi datgan ei bod yn bwriadu penodi Ofcom i fod yn rheoleidiwr niwed ar-lein yn y dyfodol.** Os caiff hyn ei gadarnhau, byddwn yn adeiladu ar ein gwaith o reoleiddio VSPs i ddylanwadu ar ein dull rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau o dan y drefn niwed ar-lein.

2. Rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos

- 2.1 Ar 12 Chwefror 2020, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei bod wedi penodi Ofcom yn rheoleiddiwr ar gyfer llwyfannau rhannu fideos (VSPs) yn y DU. Bydd y fframwaith dros dro hwn ar waith nes bydd y drefn niwed ar-lein newydd yn dod i rym.²
- 2.2 Mae gweddill y ddogfen hon yn nodi cefndir a chyd-destun deddfwriaethol rheoleiddio VSPs yn y DU, trosolwg o'r fframwaith rheoleiddio VSPs, dull gweithredu Ofcom ar gyfer rheoleiddio VSPs yn y dyfodol, a'r camau nesaf o ran y Cais hwn am Dystiolaeth.

Cefndir a chyd-destun deddfwriaethol yn y DU

Y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol newydd

- 2.3 Mae'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ("AVMSD" neu "y Gyfarwyddeb") yn gosod y fframwaith rheoleiddio sy'n sail i farchnad sengl gwasanaethau clyweledol yn yr Undeb Ewropeaidd, ac sy'n berthnasol ar hyn o bryd i ddarllediadau teledu a gwasanaethau ar-alw. Diwygiwyd y Gyfarwyddeb yn 2018 i ystyried y newidiadau i'r dirwedd cyfryngau ers diwygiad diwethaf y Gyfarwyddeb yn 2010, gyda mwy a mwy o ddefnydd yn digwydd ar-lein. Mae AVMSD 2018 yn creu categori newydd o wasanaeth rheoleiddiedig, sef llwyfannau rhannu fideos (VSPs).³ Rhaid i Aelod-wladwriaethau roi'r Gyfarwyddeb newydd ar waith erbyn 19 Medi 2020. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i drosi deddfwriaeth yr UE yn ystod cyfnod pontio Brexit. Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl rhoi'r AVMSD ddiwygiedig ar waith erbyn hydref 2020.
- 2.4 Dyma'r diffiniad o VSPs yn yr AVMSD: "a service[...]where the principal purpose of the service, or of a dissociable section thereof, or an essential functionality of the service is devoted to providing programmes and/or user-generated videos, or both, to the general public, for which the video-sharing platform provider does not have editorial responsibility[...]and the organization of which is determined by the video-sharing platform provider, including by automatic means or algorithms in particular by displaying, tagging and sequencing". Yn ddiweddar, mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar y defnydd ymarferol o'r maen prawf "swyddogaeth hanfodol" yn y diffiniad o llwyfannau rhannu fideos.⁴ Mae'r canllawiau hyn yn darparu categorïau dangosyddion i asesu rôl cynnwys clyweledol ar y gwasanaeth.
- 2.5 Bydd y fframwaith statudol newydd yn golygu y bydd gwasanaethau ar-lein yn y DU sy'n darparu mynediad at fideos a gynhyrchir gan ddefnyddwyr yn perthyn i gwmpas rheoleiddio statudol, am y tro cyntaf erioed. Mae'r AVMSD yn mynnu bod VSPs yn cymryd camau priodol i: ddiogelu plant rhag cynnwys niweidiol; diogelu'r cyhoedd rhag cynnwys

² Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, [Audiovisual Media Services, Government response to public consultations on the government's implementation proposals](#), 12 Chwefror 2020.

³ [Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol \(UE\) 2018/1808](#)

⁴ Y Comisiwn Ewropeaidd, [Guidelines on Video sharing platforms](#), 2 Gorffennaf 2020

anghyfreithlon a chynnwys sy'n cymell trais neu gasineb; ac yn parchu rhwymedigaethau penodol sy'n ymwneud â chyfathrebiadau masnachol.

- 2.6 Mae'r Gyfarwydddeb ddiwygiedig yn nodi'r meini prawf ar gyfer pennu awdurdodaeth VSPs. O ran Gwasanaethau Rhaglenni Ar-aw a gwasanaethau llinol (teledu) ledled Ewrop, caiff hyn ei bennu fel arfer drwy gyfeirio at yr Aelod-wladwriaeth lle mae pencadlys y gwasanaeth. Er y gallai'r DU, ac felly Ofcom, gael awdurdodaeth dros VSPs poblogaidd fel TikTok a Twitch os ydynt yn bodloni diffiniad cyfreithiol VSP a meini prawf sefydliad yn y DU, mae llwyfannau poblogaidd fel YouTube, Facebook a Twitter yn debygol o berthyn i awdurdodaeth Iwerddon os ydynt yn bodloni diffiniad VSP.

Beth fydd yn digwydd ar ddiwedd cyfnod pontio Brexit?

- 2.7 Mae rhoi'r AVMSD ddiwygiedig ar waith yn ofynnol fel rhan o rwymedigaethau'r DU sy'n deillio o'i haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, a thelerau ei hymadawiad. O dan delerau'r Cytundeb Ymadael, mae'n ofynnol i'r DU roi'r AVMSD ddiwygiedig ar waith gan fod ei dyddiad gweithredu yn dod cyn dyddiad dod i ben y cyfnod pontio.
- 2.8 Bydd y ddeddfwriaeth, ar ffurf Rheoliadau, yn cyflwyno darpariaethau statudol newydd o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a fydd yn cael eu cadw yng nghyfraith y DU ar ôl i gyfnod pontio Brexit ddod i ben. Mae hyn yn golygu y bydd y fframwaith rheoleiddio VSPs yn parhau i fod yn berthnasol o fis Ionawr 2021 ymlaen, ond mae'r Llywodraeth hefyd wedi datgan ei bwriad i ddisodli rheoliadau VSP yn y DU â'r Bil Niwed Ar-lein pan ddaw hwnnw i rym.
- 2.9 Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gosod ail offeryn statudol "pennu" yn yr hydref. Bydd yr offeryn statudol hwn yn egluro ar ba sail y pennir bod VSPs wedi'u 'sefydlu' yn y DU ar ôl y cyfnod pontio, ac felly pa rai sy'n perthyn i gwmpas rheoleiddio Ofcom.

Beth yw dull gweithredu Llywodraeth y DU ar gyfer trosi'r AVMSD?

- 2.10 Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS") ymgynghoriad ar ei dull o roi'r AVMSD ar waith.⁵ Yn yr ymgynghoriad hwn, nododd y Llywodraeth y byddai'n well ganddi weithredu'r gofynion VSP fel rhan o broses ddeddfwriaethol Niwed Ar-lein.⁶
- 2.11 Yn dilyn hyn, daeth DCMS i'r casgliad na fyddai proses y Papur Gwyn Niwed Ar-lein yn cael ei chyflawni mewn pryd ac felly cyhoeddodd ymgynghoriad pellach ym mis Gorffennaf 2019, ar drefn dros dro i VSPs a fyddai'n cael ei chyflwyno i gyfraith y DU erbyn y dyddiad cau ar gyfer trosi, fis Medi 2020.⁷ Roedd hyn yn cynnwys cynnig i benodi Ofcom yn awdurdod rheoleiddio cenedlaethol, nes bydd y drefn niwed ar-lein ar gyfer y dyfodol yn ei

⁵ Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, [Consultation on the UK Government's proposed approach to implementing the Audiovisual Media Services Directive 2018 \(AVMSD\)](#), 30 Mai 2019

⁶ Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, [Papur Gwyn Niwed Ar-lein](#), 8 Ebrill 2019

⁷ Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, [Requirements for Video Sharing Platforms in the Audiovisual Media Services Directive](#), 19 Gorffennaf 2019

lle. Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddodd DCMS ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cadarnhau rôl Ofcom fel rheoleiddiwr VSPs.⁸

- 2.12 Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu rhoi dyletswyddau a phwerau newydd i Ofcom mewn cysylltiad â VSPs. Mae'n bwriadu gweithredu'r gofynion VSP drwy lynu wrth ofynion sylfaenol y Gyfarwydddeb, ac adlewyrchu'r fframwaith presennol sydd ar waith ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw i'r graddau mwyaf posib. Cafodd fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau ei hysbysu i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mehefin 2020.⁹ Fodd bynnag, mae'r rhain yn dal ar ffurf drafft ac felly mae'n bosib y cânt eu diwygio cyn cael eu pasio i gyfraith y DU. Rydyn ni'n disgwyl i'r Rheoliadau gael eu gosod gerbron y Senedd erbyn yr hydref, cyn cael eu gwneud a dod i rym ar ôl 21 diwrnod.
- 2.13 Pan fydd y ddeddfwriaeth wedi dod i rym, bydd gan Ofcom y pŵer i ddechrau llunio ac ymgynghori ar y dogfennau canllaw angenrheidiol i baratoi ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio newydd. Mae rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau ar gyfer y rhain a'r camau nesaf wedi'i chynnwys ar ddiwedd y bennod hon.

Beth fydd yn digwydd pan fydd y Bil Niwed Ar-lein yn pasio?

- 2.14 Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad AVMSD, nododd y Llywodraeth ei bod yn "ymwybodol o'r pryder y gallai sefydlu trefn dros dro cyn pasio'r Bil Niwed Ar-lein greu problemau i fusnesau bach. Felly, byddwn yn sicrhau bod digon o gymorth i'r VSPs hynny yn y DU o fewn cwmpas y drefn dros dro, wrth i ni ymgorffori'r darpariaethau AVMSD yn y fframwaith Niwed Ar-lein ehangach."
- 2.15 Mae'r Llywodraeth yn bwriadu dylunio Bil Niwed Ar-lein i fynd i'r afael â niwed ar draws ystod eang o ddarparwyr gwasanaethau ar-lein gan ddefnyddio fframwaith rheoleiddio cynhwysfawr, a fydd yn cynnwys VSPs yn y DU. Nod yr AVMSD yw rheoleiddio gwasanaethau sydd wedi'u sefydlu yn y DU, ond mae'r gwaith rheoleiddio o dan y drefn niwed ar-lein yn debygol o ymestyn i wasanaethau nad yw eu pencadlys yn y DU. Mae'r ystod o wasanaethau yng nghwmpas y fframwaith niwed ar-lein yn debygol o fod yn fwy eang hefyd, sy'n golygu y bydd gwahanol fathau o wasanaeth, y tu hwnt i llwyfannau rhannu fideos, yn y cwmpas hefyd.
- 2.16 Ym mis Chwefror 2020, dywedodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu penodi Ofcom i fod yn rheoleiddiwr newydd ar gyfer y fframwaith niwed ar-lein. Bydd Ofcom yn gweithio i sicrhau ei fod yn mabwysiadu agwedd gymesur at y drefn dros dro ar gyfer VSPs yn y DU ac, os caiff ei gadarnhau fel y rheoleiddiwr niwed ar-lein ar gyfer y dyfodol, bydd yn sicrhau bod cymorth ar gael i wasanaethau sy'n symud o un drefn i'r nesaf pan fydd y broses ddeddfwriaethol honno wedi'i chwblhau.
- 2.17 Mae llawer o ddarpariaethau'r AVMSD sy'n ymwneud â rheoleiddio VSPs yn ategu cynigion datganedig y Llywodraeth ar gyfer rheoleiddio niwed ar-lein. Bydd cyflwyno rheoliadau VSP

⁸ Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, [Audiovisual Media Services, Government response to public consultations on the government's implementation proposals](#), 12 Chwefror 2020.

⁹ Y Comisiwn Ewropeaidd, [Notification Detail, Audiovisual Media Services Regulations 2020](#), 15 Mehefin 2020

yn gynharach yn y DU yn diogelu defnyddwyr ar rai gwasanaethau yn y tymor byr a bydd ein profiad o weithio gyda rhanddeiliaid ar-lein yn helpu i ddarparu sylfaen ar gyfer llywio a datblygu'r fframwaith rheoleiddio Niwed Ar-lein yn y dyfodol, pe baem yn cael ein cadarnhau fel rheoleiddiwr.

Y fframwaith rheoleiddio VSPs

- 2.18 Mae'r fframwaith rheoleiddio lefel uchel ar gyfer VSPs yn y DU wedi'i grynhoi isod. Bydd y fframwaith llawn yn cael ei gwblhau'n derfynol ar ôl pasio'r ddeddfwriaeth angenrheidiol, ond gellir gweld fersiwn ddrafft o Reoliadau'r DU ar wefan y Comisiwn Ewropeaidd¹⁰.

Y gwasanaethau yn y cwmpas

- 2.19 Roedd DCMS wedi comisiynu Plum Consulting i gynnal asesiad rhagarweiniol o'r ystod o wasanaethau a allai fod yng nghwmpas y drefn VSP yn y DU yn ôl y diffiniad yn yr AVMSD (gweler paragraff 2.4)¹¹. Mae'r adroddiad yn nodi chwe VSP posib sy'n debygol o berthyn i awdurdodaeth y DU: Twitch, TikTok, LiveLeak, Imgur, Vimeo a Snapchat. Yn ogystal â hynny, mae'n nodi o leiaf dau VSP i oedolion a allai berthyn i awdurdodaeth y DU.
- 2.20 Bydd y ddeddfwriaeth yn diffinio VSPs yn unol â meini prawf yr AVMSD a bydd Ofcom yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer gwasanaethau i'w helpu i ddeall a ydynt yn bodloni'r diffiniad hwn, ac yn perthyn i awdurdodaeth y DU. Bydd y canllawiau hyn, y mae Ofcom yn bwriadu eu cyhoeddi ar ffurf drafft ar gyfer ymgynghoriad yn nes ymlaen eleni, yn ystyried y canllawiau 'swyddogaethau hanfodol' a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd.
- 2.21 Fel y sonnir uchod mae llawer o VSPs, gan gynnwys rhai o'r gwasanaethau mwyaf poblogaidd yn y DU, yn debygol o berthyn i awdurdodaeth rheoleiddwyr mewn gwahanol Aelod-wladwriaethau'r UE. Er enghraifft, yn Nulyn mae pencadlys YouTube ac felly mae'n debygol o berthyn i awdurdodaeth y rheoleiddiwr yn Iwerddon. Mae Ofcom yn cydnabod yr heriau sy'n codi yn sgil hyn o ran sicrhau cysondeb ac eglurder i ddefnyddwyr ac i'r diwydiant ynghylch y safonau rheoleiddio a fydd yn berthnasol, a bydd yn gweithio i sicrhau bod y gofynion newydd yn cael eu deall yn iawn. Mae'r AVMSD yn darparu fframwaith cysoni sylfaenol ar draws Ewrop, felly er y bydd rhywfaint o amrywiaeth yn y dull trosi ar draws gwahanol Aelod-wladwriaethau o bosib, rhaid bodloni'r safonau gofynnol a nodir yn y Gyfarwyddeb.
- 2.22 Yn ystod ac ar ôl cyfnod pontio Brexit, bydd Ofcom yn parhau i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr rhyngwladol i ddeall eu dulliau o reoleiddio VSPs a sicrhau bod defnyddwyr yn y DU yn cael eu diogelu rhag cynnwys niweidiol ar draws pob VSP, a'n bod yn bodloni ein rhwymedigaethau i ddefnyddwyr gwasanaethau yn y DU. I sicrhau hyn bydd rhaid cael deialog rheolaidd a rhannu'r arferion gorau rhwng Ofcom a'r Awdurdodau Rheoleiddio Cenedlaethol yn Aelod-wladwriaethau'r UE, yn ogystal â chydweithio i sefydlu dulliau effeithiol ar gyfer delio â materion trawsffiniol. Mae gan Ofcom berthnasodded gwaith cryf â

¹⁰ Y Comisiwn Ewropeaidd, [Notification Detail, Audiovisual Media Services Regulations 2020](#), 15 Mehefin 2020

¹¹ Plum consulting, [Understanding video-sharing platforms under UK jurisdiction](#), Rhagfyr 2019

rheoleiddwyr o'r fath yn barod, a'n nod yw adeiladu ar y rhain wrth i ni symud at reoliadau VSP newydd ac unrhyw rôl y bydd gennym yn y dyfodol o ran rheoleiddio niwed ar-lein.

Bydd rhaid i VSPs yn y cwmpas hysbysu Ofcom

- 2.23 Mae'r Llywodraeth wedi nodi y dylai Ofcom oruchwyllo trefn hysbysu ar gyfer VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU. Bydd y drefn hysbysu yn dilyn y model presennol ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw o dan Ran 4A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. O dan y dull hwn, bydd yn rhaid i VSPs hysbysu Ofcom eu bod yn darparu gwasanaeth VSP o dan awdurdodaeth y DU. Hefyd bydd rhaid i Ofcom gadw rhestr o'r VSPs rydyn ni'n eu rheoleiddio, a chofnodi ein rhesymau dros bennu awdurdodaeth. Cynigir yn y Rheoliadau drafft y bydd y darpariaethau statudol newydd sy'n ymwneud â hysbysu yn dod i rym ar 6 Ebrill 2021, ac y bydd gan wasanaethau tan 6 Mai 2021 i hysbysu. Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ei ganllawiau ynghylch cwmpas ac awdurdodaeth cyn 6 Ebrill, i helpu gwasanaethau i ddeall a oes angen iddynt hysbysu.
- 2.24 Mae'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi pwerau i Ofcom adennill ei gostau rheoleiddio gan y diwydiant drwy osod ffioedd ar VSPs sydd yn y cwmpas. Bydd rhaid i'r gwasanaethau sy'n hysbysu dalu ffi rheoleiddio i Ofcom. Bydd Ofcom yn ymgynghori'n gyhoeddus ar strwythur ffioedd priodol a chymesur ar gyfer VSPs, a fydd yn ystyried costau rheoleiddio ar draws y sector. Codir ffioedd rheoleiddio ar VSPs o fis Ebrill 2022 ymlaen.¹²

Bydd rhaid i wasanaethau roi mesurau ar waith i ddiogelu eu defnyddwyr

- 2.25 Bydd rhaid i'r VSPs yn y cwmpas roi mesurau priodol ar waith i ddiogelu:
- plant a phobl ifanc o dan oed rhag cynnwys a allai amharu ar eu datblygiad corfforol, meddyliol neu foseol;
 - y cyhoedd rhag cynnwys sy'n cymell trais neu gasineb;
 - y cyhoedd rhag cynnwys troseddol (pryfoclad cyhoeddus i gyflawni trosedd derfysgol, troseddau sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, a throseddau sy'n ymwneud â hiliaeth a senoffobia).
- 2.26 Mae'r Gyfarwyddeb yn nodi deg mesur yn erthygl 28(3)(b) (gweler Atodiad 5). Mae'r mesurau hyn, a fydd yn cael eu hadlewyrchu yn y darpariaethau statudol newydd o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, yn cynnwys sefydlu a gweithredu **telerau ac amodau, dulliau fflagio ac adrodd, systemau dilysu oedran, systemau i roi sgôr i'r cynnwys gan y sawl sy'n llwytho i fyny neu ddefnyddwyr, systemau rheolaeth rhieni, swyddogaethau cwynion hawdd eu cyrraedd**, a darparu **mesurau ac offer llythrennedd yn y cyfryngau**. Mae dau o'r mesurau hyn yn ymwneud â rhwymedigaethau mewn perthynas â hysbysebu a mathau eraill o gyfathrebiadau masnachol.

¹² Cyn codi ffioedd rheoleiddio'r diwydiant VSP, bydd y cyllid ar gyfer sefydlu'r drefn yn dod o dderbyniadau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn unol ag adran 401 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, ac ni fydd yn cael ei hariannu gan y rheini rydyn ni'n eu rheoleiddio ar hyn o bryd. Mae'r egwyddorion sy'n nodi sut gall Ofcom gadw symiau a'r costau y gellir eu priodoli i'r symiau hynny wedi'u hamlinellu yn [natganiad egwyddorion Ofcom](#)

- 2.27 Yn unol â'r Gyfarwyddeb, wrth ystyried pa fesurau sydd eu hangen i ddiogelu defnyddwyr yn ddigonol, dylai VSPs ystyried natur y cynnwys dan sylw, y niwed y gallai ei achosi, nodweddion y bobl sydd i'w diogelu yn ogystal â hawliau a buddiannau cyfreithlon defnyddwyr (fel hawliau preifatrwydd a rhyddid mynegiant) a'r cyhoedd.
- 2.28 Mater i VSPs fydd penderfynu pa fesurau sy'n briodol ac yn gymesur ar sail eu hasesiad eu hunain o'r risg o niwed. Wrth wneud hynny, bydd VSPs yn gallu ystyried lefel yr adnoddau sydd ar gael iddynt ac ni fydd angen iddynt o reidrwydd fabwysiadu pob un o'r 10 mesur priodol a restrir yn y Gyfarwyddeb.
- 2.29 Mae'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi dyletswydd ar Ofcom i gyhoeddi canllawiau i VSPs ar ddefnyddio'r mesurau a nodir yn y Gyfarwyddeb. Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn gofyn yn bennaf am wybodaeth am y mesurau hyn a'r defnydd ymarferol a chymesur ohonynt er mwyn llywio datblygiad y canllawiau hynny i'r diwydiant, yn ogystal â safbwyntiau ar yr egwyddorion a'r ystyriaethau rheoleiddio y dylai Ofcom roi sylw iddynt.
- 2.30 Mae **Atodiad 1** yn cynnwys y cwestiynau rydyn ni'n gofyn am dystiolaeth a chyfraniad yn eu cylch. Mae gan Ofcom ddiddordeb mewn clywed gan ddarparwyr sy'n ystyried y gallai eu gwasanaeth(au) fodloni'r diffiniad o VSP, ynghyd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid â diddordeb fel academyddion, arbenigwyr, rheoleiddwyr eraill a grwpiau defnyddwyr. Dyma rai o'r meysydd yr ydym yn gofyn am wybodaeth amdanynt:
- **cwmpas** – pa wasanaethau sy'n bodloni diffiniad VSP yn awdurdodaeth y DU o bosib;
 - **y mesurau a'r adnoddau diogelwch sydd ar waith ar hyn o bryd i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed** – gan gynnwys telerau ac amodau (safonau cymunedol), rheolau hysbysebu, dulliau adrodd a fflagio, technegau sicrhau a dilysu oedran, swyddogaeth rhoi sgôr i gynnwys, rheolaethau rhieni, trefn delio â chwynion, a llythrennedd yn y cyfryngau;
 - **adrodd a gwerthuso** – gan gynnwys metrigau ar gyfer adrodd a phrosesau ar gyfer gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd offer diogelwch.
- 2.31 Bydd ein canllawiau yn egluro'n glir bod rhaid i VSPs ystyried rhyddid mynegiant eu defnyddwyr yn unol â'r AVMSD ac o dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wrth ddylunio a gweithredu eu systemau i ddiogelu defnyddwyr rhag y meysydd niwed penodol. Byddwn yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar sut gallai VSPs ystyried rhyddid mynegiant, a rôl Ofcom yn diogelu hyn wrth ddatblygu a gweithredu'r drefn rheoleiddio.
- 2.32 Mae'r Gyfarwyddeb yn mynnu bod VSPs yn diogelu hawliau a buddiannau defnyddwyr drwy ddull gwneud iawn diduedd y tu allan i'r llys. Dylai hwn fod ar gael i ddatrys anghydfodau rhwng defnyddwyr a darparwyr VSP. Ac ystyried swm aruthrol y cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr sy'n cael ei rannu ar VSPs, nid yw'n ymarferol sefydlu trefn seiliedig ar gwynion fel yr un sy'n bodoli yn y system rheoleiddio ym maes darlledu ac ar-alw. Yn hytrach, mae DCMS yn cynnig y dylai goruchwylio'r gofyniad i VSPs gael proses gwyno effeithiol a hawdd ei chyrraedd, a gofyniad iddynt hefyd gael dull gwneud iawn ar waith sy'n darparu proses apelio annibynnol allanol, fod yn un o swyddogaethau'r rheoleidiwr. Mae Ofcom yn gofyn am safbwyntiau gan y diwydiant a rhanddeiliaid ar ba

ffurf y dylai hyn fod, a bydd yn cyhoeddi canllawiau ar y dull hwn ar ôl ymgynghori â'r diwydiant.

Bydd Ofcom yn monitro ac yn asesu cydymffuriad VSPs â'u rhwymedigaethau rheoleiddiol

- 2.33 Mae'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi pwerau i Ofcom ofyn am wybodaeth gan VSPs i asesu a ydynt yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau rheoleiddiol. Bydd y pwerau hyn yn galluogi Ofcom i holi am y mesurau a gymerwyd, i asesu a yw mesurau o'r fath yn briodol i ddiogelu defnyddwyr, ac i ymchwilio i achosion lle mae'r mesurau hyn o bosib wedi methu diogelu defnyddwyr rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol neu'n amhriodol i oedran. Cynigir hefyd bod y pwerau casglu gwybodaeth yn ymestyn i wasanaethau nad ydynt wedi cael eu hysbysu'n ffurfiol, ond y mae Ofcom yn credu eu bod yn debygol o fodloni meini prawf VSP.
- 2.34 Bydd Ofcom yn monitro'r sector yn rhagweithiol i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag niwed, ac i fynd i'r afael â phryderon posib cyn gynted ag y bo modd. Wrth ddatblygu hyn, bydd Ofcom yn defnyddio ei brofiad eang o fonitro ac asesu cydymffuriad gwahanol endidau rheoleiddiedig ar draws y sector cyfathrebiadau. Byddwn hefyd yn defnyddio profiad perthnasol rheoleiddwyr eraill yn y DU a rheoleiddwyr rhyngwladol.
- 2.35 Mae Ofcom yn bwriadu ymgysylltu'n rheolaidd â VSPs i sicrhau bod gwasanaethau'n deall eu rhwymedigaethau rheoleiddiol. Drwy ymgysylltu â'r diwydiant a rhaglen barhaus o ymchwil a gwybodaeth am y farchnad, mae Ofcom yn bwriadu bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y sector VSP i sicrhau bod canllawiau'n datblygu i ystyried datblygiadau technolegol, a datblygiad niwed sy'n digwydd ar-lein dros amser.
- 2.36 Er na fydd Ofcom yn mynd i'r afael â chwynion unigol, bydd aelodau o'r cyhoedd yn gallu cofnodi materion sy'n ymwneud â rhwymedigaethau rheoleiddiol VSPs gydag Ofcom. Mae'r gwaith o reoleiddio VSPs yn canolbwyntio ar a yw gwasanaethau wedi rhoi mesurau priodol ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed. Yn yr un modd â'r sectorau eraill rydyn ni'n eu rheoleiddio, bydd Ofcom yn olrhain cwynion a ddaw i law i nodi tueddiadau systemig a materion cydymffurfio posib, ac yn ymchwilio fel y bo'n briodol.

Gorfodi

- 2.37 Mae Ofcom yn credu bod amrywiol ffynonellau gwybodaeth a allai sbarduno camau gorfodi i asesu a yw VSP wedi bodloni ei ofynion rheoleiddiol. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft: cynnydd sydyn mewn cwynion i Ofcom; gwybodaeth a geir drwy adroddiadau cydymffurfio; ymchwil defnyddwyr; atgyfeiriadau gan bartïon â diddordeb fel sefydliadau buddiannau defnyddwyr neu'r rheini sydd â dealltwriaeth arbenigol o faterion perthnasol; chwythwr chwiban; neu wybodaeth a geir gan reoleiddwyr eraill. Byddwn yn defnyddio pwerau casglu gwybodaeth i ymchwilio i achosion posib o dorri rhwymedigaethau (gyda'r pŵer i orfodi'r rhain os bydd VSP yn peidio ag ymateb).

- 2.38 O ran gorfodi a sancsiynau, mae'r Llywodraeth yn bwriadu dyblygu'r drefn sancsiynau sydd ar waith ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw a rhoi ystod o bwerau gorfodi ffurfiol i Ofcom, gan gynnwys:
- Cyhoeddi penderfyniadau cyfreithiol rwymol os bydd VSP yn torri ei rwymedigaethau drwy beidio â rhoi mesurau priodol ar waith i ddiogelu defnyddwyr;
 - Nodi'r camau sy'n ofynnol i unioni'r achos o dorri rhwymedigaethau a sicrhau cydymffurfiad;
 - Gosod cosbau ariannol o hyd at 5% o 'refeniw cymwys perthnasol' i sicrhau ataliaeth¹³;
 - Cyhoeddi cyfarwyddyd i atal neu gyfyngu ar yr hawl i ddarparu VSP.
- 2.39 Bydd Ofcom yn nodi ei ddull gweithredu ar gyfer gorfodi, gan gynnwys y gweithdrefnau y bydd yn eu dilyn mewn ymchwiliadau rheoleiddio, mewn canllawiau gorfodi.

Hysbysebu

- 2.40 Mae'r AVMSD yn nodi mesurau diogelu lefel uchel ar gyfer hysbysebu, sy'n berthnasol ar draws yr holl wasanaethau cyfryngau sy'n berthnasol o dan y Gyfarwydddeb: llinol, ar-alw a VSPs. Mae'r mesurau diogelu lefel uchel hyn yn cynnwys: diogelu plant a phobl ifanc o dan oed rhag deunydd a allai amharu ar eu datblygiad meddyliol, corfforol neu foesol; diogelu'r cyhoedd rhag deunydd sy'n cymell casineb neu drais; a diogelu'r cyhoedd rhag deunydd y byddai ei ddsbarthu yn drosedd.
- 2.41 Mae gofynion penodol hefyd i ddiogelu rhag niwed sy'n gysylltiedig â hysbysebion, a sicrhau tryloywder wrth hysbysebu ar VSPs. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys materion fel pa mor hawdd yw adnabod hysbysebion, cynnyrch gwaharddedig neu gyfyngedig (e.e. meddyginiaethau presgripsiwn yn unig; sigarêts a chynnyrch tybaco; diodydd alcoholig), ac arferion gwaharddedig neu gyfyngedig (e.e. cynnwys neu hyrwyddo gwahaniaethu; annog ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd a diogelwch; achosi niwed corfforol, meddyliol neu foesol i blant a phobl ifanc o dan oed). O ran tryloywder, rhaid i ddarparwyr VSP ddarparu swyddogaeth i ddefnyddwyr sy'n llwytho cynnwys i fyny i ddatgan presenoldeb hysbysebion ac i gyfleu presenoldeb yr hysbysebion hyn yn glir i ddefnyddwyr sy'n ymgysylltu â'r cynnwys hwnnw.
- 2.42 Yn wahanol i wasanaethau llinol ac ar-alw, nid yw hysbysebion sy'n ymddangos ar VSPs bob amser o dan reolaeth darparwr y gwasanaeth. Gan gydnabod hyn, nod yr AVMSD yw sicrhau ei amcanion drwy ofynion uniongyrchol a osodir ar VSPs ar gyfer yr hysbysebion maen nhw yn eu rheoli (h.y. y maen nhw'n eu marchnata, eu gwerthu neu eu trefnu eu hunain), a drwy ofyniad i gael 'mesurau priodol' ar waith ar gyfer yr hysbysebion nad ydynt yn eu rheoli. Rydyn ni'n rhag-weld trefn rheoleiddio sy'n ystyried y gwahanol gategoriâu hyn o hysbysebion, gan leihau cymhlethdod ar yr un pryd.
- 2.43 Yn ei chyhoeddiad yn enwi Ofcom fel yr awdurdod rheoleiddio sy'n gyfrifol am VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU, nododd y Llywodraeth y byddai'n rhoi'r pŵer i Ofcom ddynodi cyd-

¹³ Mae Ofcom yn disgwyl cael y pŵer i roi dirwyon uchaf o £250k neu 5% o refeniw cymwys y darparwr, pa un bynnag sydd uchaf, fel yr ystyrir sy'n briodol ac yn gymesur. Caiff cosbau ariannol eu pennu yn ôl [Canllawiau Cosbau](#) Ofcom.

reoleiddiwr. O ran hysbysebu, nododd ein perthynas gydreoleiddio bresennol â'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ar gyfer hysbysebu ar wasanaethau darlledu ac ar-alw.

- 2.44 Mae DCMS wedi nodi y byddai'n well ganddi pe bai Ofcom yw'r unig reoleiddiwr ar gyfer y fframwaith cyffredinol, ond bydd gennym y pŵer i ddynodi cyd-reoleiddiwr ar gyfer agwedd ar y drefn, fel hysbysebu. Byddwn yn ystyried dulliau cydreoleiddio posib ar gyfer rheoleiddio hysbysebion ar VSPs.
- 2.45 Bydd y mesurau hyn ar waith tan fod y ddeddfwriaeth sy'n rhoi'r Papur Gwyn ar Niwed Ar-lein ar waith. Bryd hynny, os cawn ein cadarnhau fel y rheoleiddiwr, byddwn yn gweithredu'r gofynion drwy'r fframwaith rheoleiddio ehangach hwnnw. Nid yw hyn yn berthnasol i'r gofynion hynny sy'n ymwneud â chyfathrebiadau masnachol nad ydynt ar hyn o bryd yng nghwmpas y fframwaith rheoleiddio arfaethedig ar gyfer Niwed Ar-lein. Yn amodol ar ganlyniad y rhaglen waith hysbysebu ar-lein, rydyn ni'n disgwyl i'r gofynion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau masnachol barhau mewn grym. Ar ben hynny, disgwylir i'r Awdurdod Safonau Hysbysebu barhau i reoleiddio hysbysebion ar-lein ar sail hunanreoleiddiol, fel y mae ar hyn o bryd.

Dull gweithredu Ofcom ar gyfer rheoleiddio VSPs

- 2.46 Bydd dull gweithredu Ofcom ar gyfer rheoleiddio VSPs yn defnyddio profiad presennol o gyflawni swyddogaethau rheoleiddio lle rydyn ni'n asesu digonolrwydd mesurau diogelu a phrosesau mewn cyd-destunau eraill, yn ogystal ag adeiladu ar ein profiad helaeth o reoleiddio cynnwys.
- 2.47 Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod bod y gofod ar-lein yn wahanol i feysydd rheoleiddiedig eraill felly bydd Ofcom hefyd yn mabwysiadu dulliau rheoleiddio cymesur, arloesol, ystwyth a rheolaidd i adlewyrchu hyn. Wrth ddiogelu rhag niwed ar-lein, rhaid i ni hefyd ddiogelu cystadleuaeth, hawliau preifatrwydd a rhyddid mynegiant. Bydd angen i ni gydweithio ag amrywiaeth eang o randdeiliaid a sefydliadau trydydd sector er mwyn sicrhau canlyniadau rheoleiddio da yn y gofod hwn. Gallai hyn gynnwys ffurfio partneriaethau newydd i fanteisio ar alluoedd ac arbenigedd yr ecosystem ehangach.
- 2.48 Bydd Ofcom yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac, ochr yn ochr ag ymchwil parhaus, yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu dull seiliedig ar dystiolaeth o reoleiddio VSPs. Bydd y dystiolaeth rydyn ni'n ei chasglu yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith o ddrafftio ein canllawiau ar gyfer VSPs, ond bydd hefyd yn sail i'n rôl bosib yn y dyfodol fel rheoleiddiwr niwed ar-lein, pe bai'r Llywodraeth yn cadarnhau bod Ofcom yn ymgymryd â swyddogaethau yn y maes hwn. Rydyn ni'n cydnabod y gallai'r sylfaen dystiolaeth hon newid wrth i'r risgiau o niwed, y dulliau technolegol o ddiogelu a llawer o ffactorau eraill ddatblygu dros amser, a byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ein canllawiau cyhoeddedig fel rhan o'n dull rheoleiddio.
- 2.49 Er bod y gwaith o reoleiddio VSPs yn newydd, mae gwersi allweddol o'n profiad yn rheoleiddio'r Sector Cyfathrebiadau sy'n berthnasol ar gyfer rheoleiddio VSPs a rheoleiddio

niwed ar-lein yn y dyfodol. Mae Ofcom wedi trafod rhai o'r egwyddorion hyn yn ei ddogfen ym mis Medi 2018, "Mynd i'r afael â chynnwys niweidiol ar-lein".¹⁴

- **Diogelu a sicrwydd** – mae'r AVMSD yn gosod amcanion statudol clir o ran y risg o niwed i'w atal ac mae'r amcanion hyn yn adlewyrchu normau a disgwyliadau cymdeithasol, fel amddiffyn plant a phobl ifanc o dan oed. Bydd y gwaith o reoleiddio VSPs yn dechrau rhoi rhai mesurau diogelu statudol ar waith ar gyfer defnyddwyr, cyn y fframwaith niwed ar-lein ehangach.
- **Diogelu rhyddid mynegiant** – dylai pobl allu rhannu a derbyn syniadau a gwybodaeth yn rhwydd heb ymyrraeth ddiangen. Bydd dull rheoleiddio Ofcom yn ceisio diogelu defnyddwyr rhag y niwed mwyaf difrifol, gan gydnabod pwysigrwydd yr hawl i ryddid mynegiant ar yr un pryd. Mae Ofcom wedi hen arfer ystyried rhyddid mynegiant yn ei waith darlledu, ond yn y byd ar-lein bydd angen i ni ystyried nodweddion cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr a chydabod pwysigrwydd rhyddid mynegiant mewn democratiaeth. Bydd ein canllawiau yn gosod disgwyliadau clir i wasanaethau rheoleiddiedig ddiogelu rhyddid mynegiant.
- **Y gallu i addasu dros amser** – dylai rheoleiddio da bob amser gefnogi arloesedd yn hytrach na'i rwystro, ac mae hyn yn arbennig o berthnasol yn y cyd-destun ar-lein lle ceir datblygiadau technolegol cyflym mewn marchnadoedd sy'n datblygu'n gyflym. Felly, rhaid i ganllawiau Ofcom gynnig hyblygrwydd i VSPs fabwysiadu'r dulliau a'r technolegau sydd fwyaf priodol ar gyfer eu llwyfan er mwyn diogelu eu defnyddwyr. Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu dull seiliedig ar egwyddorion o osod canllawiau. Dylai ein dull rheoleiddio hefyd allu datblygu i adlewyrchu ymddygiad a disgwyliadau newidiol defnyddwyr, newidiadau yn y mathau o niwed sy'n digwydd a'r ffyrdd y mae niwed yn dod i'r wyneb, arloesedd gan y diwydiant, a chynseiliau sefydledig o benderfyniadau rheoleiddio.
- **Tryloywder** – o ran gwasanaethau rheoleiddiedig ac o ran y camau gweithredu a'r penderfyniadau a gymerir gan y rheoleiddiwr. Mae Ofcom yn disgwyl cael pwerau i gasglu gwybodaeth gan VSPs. Byddwn hefyd yn parhau i gynnal a chyhoeddi ein hymchwil marchnad o'r radd flaenaf ar agweddau, ymddygiadau a phrofiadau defnyddwyr ar-lein er mwyn cyfrannu at y drafodaeth gyhoeddus barhaus.
- **Gorfodi cadarn** – yn erbyn diffyg cydymffurfio, drwy sancsiynau cymesur ac ystyrlon. Rydyn ni'n bwriadu gweithio gyda gwasanaethau rheoleiddiedig i helpu darparwyr i ddeall eu rhwymedigaethau rheoleidiol a disgwyliadau Ofcom o ran cydymffurfio. Fodd bynnag, pan fydd problemau sylweddol yn codi neu pan fydd cwmnïau'n gwrthod cymryd camau ystyrlon i gydymffurfio, byddwn yn defnyddio ein pwerau i gymryd camau gorfodi cadarn. Bydd pwerau Ofcom o dan y Rheoliadau drafft yn cynnwys y gallu i gyhoeddi cyfarwyddiadau sy'n nodi atebion a champau ar gyfer gwella, dirwyon, ac ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol o dorri rhwymedigaethau, y pŵer yn y pen draw i atal neu gyfyngu ar wasanaeth.
- **Annibyniaeth** – mae llywodraethu a phroses gwneud penderfyniadau annibynnol yn meithrin hygredd ac ymddiriedaeth ymysg y cyhoedd. Mae'r AVMSD a'r

¹⁴ Ofcom: [Mynd i'r afael â chynnwys niweidiol ar-lein](#), 18 Medi 2018

deddfwriaeth cyfryngau gyfredol yn y DU yn cydnabod bod annibyniaeth yn hanfodol i reoleiddwyr fel Ofcom er mwyn gallu gweithio er budd y cyhoedd, a chyflawni rôl heb ragfarn wirioneddol neu ymddangosiadol.

- Bydd **cymesuredd** yn parhau i fod yn egwyddor allweddol yn ein dull rheoleiddio. Mae gan Ofcom ddyletswydd i weithredu mewn ffordd gymesur wrth gyflawni ei swyddogaethau a bydd hyn yn arbennig o bwysig yn y cyd-destun ar-lein. Mae'r sector VSP yn amrywiol, gyda llwyfannau o wahanol faint, graddfa a risg o niwed. Mae angen i'n gwaith rheoleiddio adlewyrchu hyn. Bydd angen i Ofcom hefyd fod yn ymwybodol o unrhyw effaith reoleiddiol anfwriadol, fel y risg o ystumio neu niweidio cystadleuaeth, er enghraifft drwy godi rhwystrau i fynediad.

2.50 Drwy'r Cais hwn am Dystiolaeth rydyn ni'n croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar yr egwyddorion hyn, ac ar y ffordd orau i Ofcom reoli'r tensiynau a all godi rhyngddynt weithiau.

Y dirwedd reoleiddio sy'n datblygu ar gyfer gwasanaethau ar-lein

- 2.51 Mae tirwedd reoleiddio ar-lein ryngberthynol a chymleth o bosib yn dod i'r amlwg. Felly, bydd hi'n bwysig i reoleiddwyr gydweithio'n eang ac i ddarparu eglurder a sicrwydd i'r diwydiant ynghylch gwahanol drefniadau rheoleiddio. Lle bo'n briodol, bydd Ofcom yn gweithio gyda rheoleiddwyr perthnasol, y Llywodraeth ac eraill i gefnogi hyn. Er enghraifft, rydyn ni'n cydnabod y bydd angen i'r gwaith o reoleiddio VSPs ryngweithio â Chod Dylunio Priodol i Oedran Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n ceisio diogelu data personol plant ar wasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio ganddynt. Mae Ofcom hefyd yn gweithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd fel rhan o'r Tasglu Marchnadoedd Digidol, sy'n cael ei arwain gan yr Awdurdod, i roi cyngor i'r Llywodraeth ar ddyluniad a gweithrediad posib mesurau o blaid cystadleuaeth ar gyfer marchnadoedd llwyfannau digidol, gan gynnwys ystyried sut gallai trefn o'r fath ryngweithio â threfniadau fel y gwaith o reoleiddio VSPs.
- 2.52 Mae'r AVMSD ddiwygiedig hefyd yn cyflwyno gofynion newydd ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw ac yn newid y diffiniadau sy'n pennu sut mae gwasanaethau'n bodloni meini prawf gwasanaeth rhaglenni ar-alw. Yn erbyn y newidiadau hyn, rydyn ni'n cydnabod y gallai'r gwahaniaeth rhwng gwahanol llwyfannau, neu wasanaethau a allai fod ar gael ar wahanol llwyfannau, fod yn gymhleth weithiau a bydd angen ystyried y meini prawf ar gyfer barnu gwasanaeth, er enghraifft a yw'n llwyfan rhannu fideos neu'n wasanaeth rhaglenni ar-alw, fesul achos. Bydd Ofcom yn cyhoeddi canllawiau ar y cwmpas i helpu gwasanaethau i ddehongli'r meini prawf deddfwriaethol ac i ddeall o dan ba drefn y bydd yn rhaid iddynt hysbysu, ac felly pa rwymedigaethau fydd yn berthnasol.
- 2.53 Yn rhyngwladol, mae rheoleiddwyr ar draws Aelod-wladwriaethau Ewrop hefyd yn paratoi ar gyfer y fframwaith newydd a osodwyd gan yr AVMSD, ac mewn llawer o wledydd gan gynnwys y DU, mae llywodraethau'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth ar-lein ehangach. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n cymheiriaid rheoleiddio mewn gwledydd eraill i rannu gwybodaeth a'r hyn a ddysgwyd wrth i drefniadau gael eu datblygu ochr yn ochr.

Pam ydyn ni'n lansio Cais am Dystiolaeth?

- 2.54 Fel y nodwyd uchod, bydd gofyn i Ofcom lunio canllawiau i VSPs ar weithredu'r 'mesurau priodol' a restrir yn y Gyfarwyddeb. Felly, er mwyn llywio'r canllawiau drafft, rydyn ni'n gofyn am dystiolaeth o'r defnydd o'r mesurau hyn i ddiogelu defnyddwyr rhag risgiau'r niwed a nodir yn yr AVMSD. Rydyn ni hefyd yn gofyn am safbwyntiau a thystiolaeth gynnar ynghylch nifer o bynciau eraill, er mwyn llywio ein dull rheoleiddio cyffredinol a meysydd eraill lle byddwn yn cyhoeddi canllawiau (gweler isod).
- 2.55 Mae trefniadau rheoleiddio VSPs o'r natur hon yn newydd a heb eu profi, a hynny yn y DU ac yn fyd-eang. Felly mae'n bwysig bod Ofcom yn gallu gweithio'n adeiladol ochr yn ochr â'r diwydiant i ddatblygu'r seiliau ar gyfer y drefn hon, ac unrhyw waith rheoleiddio ar-lein yn y dyfodol. Mae angen i ni sicrhau bod canllawiau Ofcom yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, yr arferion gorau a dealltwriaeth o alluoedd presennol gwahanol wasanaethau.
- 2.56 Mae Ofcom wedi bod yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid ar-lein ers peth amser, a byddwn yn cynyddu ein gweithgarwch ymgysylltu drwy'r Cais hwn am Dystiolaeth.
- 2.57 Rydyn ni'n gofyn am safbwyntiau gan llwyfannau, defnyddwyr, arbenigwyr a phartion eraill â diddordeb ar arferion da, problemau a heriau, er mwyn cynyddu ein dealltwriaeth o'r sector ac o'r risgiau o niwed ar y llwyfannau hyn. Mae rhestr lawn o'r cwestiynau a'r meysydd rydyn ni'n gofyn am wybodaeth amdanynt ar gael yn **Atodiad 1**.

Y camau nesaf

- 2.58 Bydd y Cais hwn am Dystiolaeth yn rhedeg o [ddydd Iau 16 Gorffennaf tan ddydd Iau 24 Medi 2020.
- 2.59 Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd yr hydref hwn. Ar ôl ei phasio, bydd gan Ofcom y grym i lunio ac ymgynghori ar y canllawiau angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaethau. Byddwn yn ystyried yn ofalus yr holl ymatebion, cyfraniadau a gwybodaeth a ddaw i law drwy'r Cais hwn am Dystiolaeth cyn cyhoeddi canllawiau drafft ar gyfer ymgynghoriad. Bydd yr ystod lawn o ganllawiau yn ymdrin â chwmpas ac awdurdodaeth, mesurau priodol, iawn i ddefnyddwyr, a phrosesau gorfodi.
- 2.60 Mae'r gofynion newydd yn berthnasol o'r dyddiad y byddant yn dod i rym felly mae angen i ddarparwyr sy'n debygol o fod yn darparu VSP yn ôl y diffiniad yn yr AVMSD (gweler 2.3-2.6 uchod) ddechrau paratoi ar gyfer hyn drwy wneud yn siŵr eu bod yn deall y gofynion newydd, a chymryd camau i sicrhau bod eu gwasanaeth yn cydymffurfio (gweler 2.24-2.27 uchod).
- 2.61 Fodd bynnag, rydyn ni'n ymwybodol o'r angen am gyfnod gweithredu i'r diwydiant ar ôl i'r Rheoliadau gael eu gwneud a'r gofynion statudol newydd ar VSPs ddod i rym, yn ogystal â chyfle i ymgynghori â'r cyhoedd ar y gwahanol ddogfennau canllaw y bydd Ofcom yn eu cynhyrchu. Rydyn ni'n bwriadu cwblhau dogfennau canllaw rheoleiddiol erbyn haf 2021. Cyn hynny, bydd Ofcom yn gweithredu fel a ganlyn:

- Byddwn yn cydweithio â VSPs i'w helpu i ddeall eu rhwymedigaethau rheoleiddiol ac nid ydym yn disgwyl cymryd camau gorfodi ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn yn gyffredinol;
- Fodd bynnag, os byddwn yn dod yn ymwybodol o achosion o niwed difrifol neu anghyfreithlon gan VSPs yn y DU ac yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny, bydd Ofcom yn cymryd camau gorfodi cadarn. Ar hyn o bryd rydyn ni'n bwriadu gwneud hynny yn unol â'n [canllawiau gorfodi presennol ar gyfer ymchwiliadau rheoleiddiol](#).
- Byddwn yn gweithio gyda rheoleiddwyr ar draws Aelod-wladwriaethau Ewrop i ddeall eu dulliau o reoleiddio VSPs ac yn cydweithio i ddatblygu a chysoni dulliau rheoleiddio lle bo hynny'n bosib.

A1. Cwestiynau'r Cais am Dystiolaeth

- A1.1 Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn gofyn am wybodaeth a safbwyntiau gan randdeiliaid mewn perthynas â darpariaethau Erthygl 28b yr AVMSD. Mae Ofcom yn awyddus i glywed gan amrywiaeth eang o randdeiliaid drwy'r Cais hwn am Dystiolaeth.
- A1.2 Gofynnir i ymatebwyr ateb pob cwestiwn sy'n berthnasol yn eu barn hwy, ond nid oes rhaid iddynt ymateb i bob cwestiwn fel rhan o'u cyflwyniad. Mae rhai cwestiynau wedi'u targedu'n benodol at y diwydiant VSP a gwasanaethau ar-lein eraill, ac mae cwestiynau eraill wedi'u bwriadu ar gyfer pob ymatebydd. Hoffem glywed gan ddarparwyr y mae eu gwasanaethau'n debygol o fod yng nghwmpas Ofcom, yn ogystal â darparwyr eraill nad yw eu gwasanaethau'n debygol o berthyn i awdurdodaeth Ofcom. Bydd Ofcom yn cyhoeddi ymatebion nad ydynt yn gyfrinachol ar ei wefan, ond dylai ymatebwyr nodi os oes ymateb neu ran o ymateb yn gyfrinachol.
- A1.3 Yn ogystal â gofyn am sylwadau ysgrifenedig gan amrywiaeth eang o randdeiliaid â diddordeb, byddwn yn cysylltu â rhanddeiliaid yn y diwydiant a'r trydydd sector i wahodd cwmnïau a sefydliadau i siarad â ni am eu safbwyntiau, eu dystiolaeth a'u profiadau mewn perthynas â'r meysydd rydyn ni wedi'u nodi isod. Os hoffech chi gysylltu ag Ofcom ynglŷn â'r Cais hwn am Dystiolaeth, cysylltwch â VSPRegulation@ofcom.org.uk
- A1.4 Rydyn ni hefyd yn cynnal ymchwil defnyddwyr pwrpasol i wneud yn siŵr ein bod wedi clywed gan y cyhoedd a defnyddwyr VSPs.

Rhan A: Cwestiynau i'r diwydiant

Gwasanaethau

Cwestiwn 1: Ydych chi'n darparu gwasanaeth sydd wedi'i sefydlu yn y DU sy'n debygol o fodloni diffiniad yr AVMSD o VSP?

Rhowch fanylion y gwasanaeth lle bo hynny'n berthnasol.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n gallu adnabod defnyddwyr sydd wedi'u lleoli mewn gwledydd penodol ac ydych chi'n darparu swyddogaethau neu ryngweithiadau Rhyngwyneb Defnyddwyr (UI) neu Brofiad Defnyddwyr (UX) y gellir eu haddasu, yn seiliedig ar oedran a lleoliad tybiedig y defnyddwyr?

Telerau ac amodau

Cwestiwn 3: Sut mae eich gwasanaeth yn datblygu ac yn gorfodi polisiau ar gyfer yr hyn sy'n dderbyniol ac nad yw'n dderbyniol ar eich gwasanaeth? (gan gynnwys drwy delerau ac amodau, safonau cymunedol a pholisiau defnydd derbyniol)

Yn benodol, darparwch wybodaeth yn esbonio:

- beth yw'r polisiau hyn ac a ydynt yn ymdrin â'r categorïau o niwed a restrir yn yr AVMSD (diogelu plant a phobl ifanc o dan oed, cymell casineb a thrais, a chynnwys troseddol – yn benodol Cam-drin Plant yn Rhywiol a CHamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, deunydd terfysgol, hiliaeth a senoffobia);
- sut mae eich gwasanaeth yn asesu'r risg o niwed i'w ddefnyddwyr;
- sut mae defnyddwyr yn cael gwybod am Delerau ac Amodau a pholisiau defnydd derbyniol;
- sut rydych chi'n profi ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad defnyddwyr.

Cwestiwn 4: Sut mae eich Telerau ac Amodau (neu safonau cymunedol/polisiau defnydd derbyniol) yn cael eu gweithredu?

Yn benodol, darparwch wybodaeth yn esbonio:

- pa systemau sydd ar waith i nodi cynnwys niweidiol neu gynnwys a allai dorri eich safonau ac a yw'r rhain yn gweithredu ar sail ragweithiol (e.e. monitro cynnwys yn weithredol) neu sail adweithiol (e.e. mewn ymateb i adroddiadau neu fflagiau);
- rôl prosesau dynol ac awtomataidd, a systemau cymedroli cynnwys;
- sut rydych chi'n asesu effeithiolrwydd ac effaith y dulliau/prosesau hyn

Hysbysebu

- A1.5 Sylwch fod hysbysebu yn cynnwys nawdd, gosod cynnyrch, cymeradwyo, a mathau eraill o gyfathrebiadau masnachol clyweledol.

Cwestiwn 5: Oes gan eich gwasanaeth reolau hysbysebu?

Yn benodol, darparwch wybodaeth am unrhyw reolau hysbysebu sydd gan eich llwyfan, a ydynt yn cynnwys y meysydd yn y Gyfarwyddeb AVMS, a sut mae'r rhain yn cael eu gorfodi. Gweler Atodiad 5 am gopi o ddarpariaethau'r AVMSD.

Cwestiwn 6: I ba raddau y mae gennych chi reolaeth uniongyrchol ar yr hysbysebion sy'n ymddangos ar eich gwasanaeth, h.y. yn cael eu marchnata, eu gwerthu neu eu trefnu gan y llwyfan?

Rhowch fanylion am sut mae hysbysebion yn cael eu marchnata, eu gwerthu a'u trefnu i egluro eich ateb.

Cwestiwn 7: Pa ddulliau sydd gennych chi ar waith i sefydlu a yw fideos sy'n cael eu llwytho i fyny gan ddefnyddwyr yn cynnwys hysbysebion, a sut mae'r dulliau hyn yn cael eu dylunio, eu gorfodi a'u hasesu o ran eu heffeithiolrwydd?

Adrodd a fflagio

Cwestiwn 8: A oes gan eich gwasanaeth unrhyw ddulliau adrodd neu fflagio ar waith (dynol neu awtomataidd)?

Yn benodol, darparwch wybodaeth yn esbonio:

- beth mae'r dulliau'n ei olygu a sut maen nhw'n cael eu dylunio;
- sut mae defnyddwyr yn cael gwybod am ddulliau adrodd a fflagio;
- sut rydych chi'n profi ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad defnyddwyr â'r dulliau hyn;
- sut mae'r dulliau hyn yn arwain at gamau pellach, a beth yw'r set o gamau sy'n cael eu cymryd ar sail y niwed a adroddir;
- sut mae gwasanaethau'n gwirio bod unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd yn rhai cymesur ac yn ystyried Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (rhyddid mynegiant);
- sut mae defnyddwyr (gan gynnwys y rhai sy'n llwytho i fyny) yn cael gwybod a oes unrhyw gamau wedi'u cymryd o ganlyniad i ddeunydd y maen nhw neu eraill wedi'i adrodd neu ei fflagio;
- a oes unrhyw ffordd i ddefnyddwyr (gan gynnwys y rhai sy'n llwytho i fyny) herio canlyniad unrhyw benderfyniad ynghylch cynnwys sydd wedi cael ei adrodd neu ei fflagio;
- unrhyw ystadegau perthnasol mewn perthynas â Dangosyddion Perfformiad Allweddol mewnol neu allanol, neu dargedau ar gyfer ymateb.

Rhoi sgôr i gynnwys

Cwestiwn 9: A yw eich gwasanaeth yn caniatáu i ddefnyddwyr roi sgôr i wahanol fathau o gynnwys ar eich llwyfan?

Rhowch fanylion unrhyw system sgorio a beth sy'n digwydd o ganlyniad i sgoriau gwylwyr.

Sicrwydd oedran

Cwestiwn 10: Ydych chi'n defnyddio unrhyw offer sicrhau neu ddilysu oedran, neu dechnolegau cysylltiedig i wirio oedran y defnyddwyr eich gwasanaeth?

Yn benodol, darparwch wybodaeth yn esbonio:

- sut mae eich polisïau sicrwydd oedran wedi cael eu datblygu a pha grŵp(iau) oedran y bwriedir iddynt eu diogelu;
- sut mae'r rhain yn cael eu gweithredu a'u gorfodi;
- sut mae'r rhain yn cael eu hasesu o ran eu heffeithiolrwydd neu eu heffaith;
- Os yw'r gwasanaeth wedi'i deilwra i fodloni anghenion sy'n briodol i oedran (er enghraifft, drwy gyfyngu cynnwys penodol i ddefnyddwyr penodol), sut mae hyn yn gweithio.

Rheolaethau rhieni

Cwestiwn 11: Oes gennych chi unrhyw ddulliau rheolaethau rhieni ar waith ar gyfer eich gwasanaeth?

Yn benodol, darparwch wybodaeth yn esbonio:

- sut cafodd y dulliau hyn eu datblygu;
- pa gyfyngiadau maen nhw'n eu caniatáu;
- pa mor eang maen nhw'n cael eu defnyddio;
- sut mae defnyddwyr yn cael gwybod am y dulliau rheolaethau rhieni sydd ar gael, a'u hannog i'w defnyddio.

Delio â chwynion

Cwestiwn 12: Oes gan eich gwasanaeth weithdrefn cwynion? Disgrifiwch y weithdrefn, gan gynnwys sut gall defnyddwyr eich gwasanaeth ei defnyddio a pha fathau o gwynion y gallant eu gwneud.

Yn benodol, darparwch wybodaeth yn esbonio:

- unrhyw gyfyngiadau amser ar gyfer delio â chwynion;
- unrhyw brosesau apelio, sut maen nhw'n gweithio, ac a ydynt yn annibynnol ar y prosesau cwyno;
- cyfran y cwynion sy'n cael eu herio neu eu hapelio;
- unrhyw wybodaeth berthnasol am sut mae achwynwyr yn cael gwybod am ganlyniadau cwynion.

Llythrennedd yn y Cyfryngau

Cwestiwn 13: Pa fesurau ac offer llythrennedd yn y cyfryngau sydd ar gael ar eich gwasanaeth?

Yn benodol, darparwch unrhyw wybodaeth berthnasol am y canlynol:

- sut rydych chi'n codi ymwybyddiaeth o fesurau ac offer llythrennedd yn y cyfryngau ar eich gwasanaeth;
- sut rydych chi'n asesu effeithiolrwydd unrhyw fesurau ac offer llythrennedd yn y cyfryngau a ddarperir ar eich gwasanaethau;
- sut mae ystyriaethau llythrennedd yn y cyfryngau, fel gallu eich defnyddwyr i ddeall ac ymateb i'r cynnwys sydd ar gael iddynt, yn dylanwadu arnoch chi wrth i chi feddwl am sut i ddylunio a darparu eich gwasanaethau, er enghraifft rhyngwynebau defnyddwyr, fflagio cynnwys, a defnyddio pwniadau (nudges).

Adrodd a gwerthuso

Cwestiwn 14: Ydych chi'n cyhoeddi adroddiadau tryloywder gyda gwybodaeth am eich metrigau diogelwch defnyddwyr?

Darparwch unrhyw dystiolaeth ac enghreifftiau penodol o adroddiadau, gwybodaeth am gategoreiddio a mesuriadau a ddefnyddir at ddibenion adroddiadau mewnol ac allanol, ac a oes gennych chi fesurau ar waith i gadw golwg ar berfformiad dros amser.

Cwestiwn 15: Pa brosesau a gweithdrefnau sydd gennych chi ar waith i fesur effaith ac effeithiolrwydd offer diogelwch neu fesurau amddiffyn?

Os nad ydych chi wedi nodi hyn rhywle arall yn eich ymateb, darparwch wybodaeth sy'n berthnasol i'r holl fesurau a restrir uchod gan egluro:

- sut rydych chi'n profi ac yn adolygu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad defnyddwyr â phob mesur (gan gynnwys unrhyw ddadansoddiad neu ymchwil y byddech chi'n fodlon ei rannu ag Ofcom);
- pa mor aml mae polisïau a mesurau amddiffyn yn cael eu hadolygu, a beth sy'n sbarduno adolygiad;
- sut rydych chi'n profi effaith polisïau ar ddefnyddwyr a'r busnes yn fwy cyffredinol, fel sut rydych chi'n cydbwysu costau a manteision offer newydd.

Cwestiwn 16: Sut ydych chi'n asesu ac yn lliniaru'r risg o gael gwared ar gynnwys cyfreithlon neu anniweidiol yn anfwriadol?

Yn benodol, darparwch unrhyw wybodaeth am y canlynol:

- sut mae rhyddid mynegiant yn cael ei ystyried yn ystod yr asesiad hwn;
- sut rydych chi'n delio ag apeliadau gan ddefnyddwyr, a pha gyfran sy'n llwyddiannus;
- archwiliadau o systemau dileu awtomatig ac, os ydych chi'n eu defnyddio, unrhyw fetrigau sy'n ymwneud â'u heffeithiolrwydd.

Cwestiwn 17: Ydych chi wedi rhoi unrhyw fesurau ar waith yn y gorffennol sydd heb gyrraedd y disgwyliadau, a beth oedd eich ymateb i hyn?

Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich ateb lle bo'n bosib.

Cwestiwn 18: Sut mae eich gwasanaeth yn datblygu arbenigedd ac yn hyfforddi staff ar wahanol fathau o niwed? (e.e. ydych chi wedi sefydlu unrhyw bartneriaethau?)

Rhan B. Cwestiynau i'r holl randdeiliaid

A1.6 Mae'r cwestiynau canlynol wedi'u bwriadu ar gyfer y diwydiant, academyddion, arbenigwyr a grwpiau defnyddwyr, yn ogystal ag unrhyw randdeiliaid eraill sydd â diddordeb.

Cwestiwn 19: Pa enghreifftiau sydd o ddefnyddio a gweithredu unrhyw o'r mesurau a restrir yn erthygl 28(b)(3) AVMSD 2018 yn effeithiol?

Dyma'r mesurau: telerau ac amodau, dulliau fflagio ac adrodd, systemau dilysu oedran, systemau rhoi sgôr, systemau rheolaeth rhieni, swyddogaethau cwynion hawdd eu cyrraedd, a darparu mesurau ac offer llythrennedd yn y cyfryngau. Darparwch dystiolaeth ac enghreifftiau penodol i gefnogi eich ateb.

Cwestiwn 20: Pa enghreifftiau sydd o fesurau sydd heb gyrraedd y disgwyliadau o ran diogelu defnyddwyr, a pham?

Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich ateb lle bo'n bosib.

Cwestiwn 21: Pa ddangosyddion niwed posib dylai Ofcom fod yn ymwybodol ohonynt fel rhan o'i weithgareddau monitro a chydymffurfio parhaus?

Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich ateb lle bo'n bosib.

Cwestiwn 22: Mae AVMSD 2018 yn mynnu bod VSPs yn cymryd camau priodol i 'ddiogelu plant a phobl ifanc o dan oed rhag cynnwys a allai amharu ar eu datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol'. Pa fathau o gynnwys ydych chi'n credu sy'n berthnasol yn hyn o beth? Pa fesurau ydych chi'n credu sy'n briodol i ddiogelu plant a phobl ifanc o dan oed?

Darparwch dystiolaeth i gefnogi eich ateb lle bo'n bosib, gan gynnwys unrhyw ystyriaethau sy'n gysylltiedig ag oedran.

Cwestiwn 23: Pa heriau y gallai VSPs eu hwynebu wrth fabwysiadu mesurau y dylai Ofcom fod yn ymwybodol ohonynt mewn modd ymarferol a chymesur?

Byddai gennym ddiddordeb penodol yn eich rhesymau dros y ffactorau sy'n berthnasol i'r asesiad o ymarferoldeb a chymesuredd.

Cwestiwn 24: Sut y dylai VSPs gydbwyso hawliau eu defnyddwyr i ryddid mynegiant, a pha fetrigau y dylent eu defnyddio i fonitro hyn? Pa rôl ydych chi'n ei gweld i reoleiddiwr?

Cwestiwn 25: Sut dylai VSPs ddarparu ar gyfer dull gwneud iawn y tu allan i'r llys ar gyfer datrys anghydfodau'n ddiduedd rhwng defnyddwyr a darparwyr VSPs? (gweler paragraff 2.32 ac erthygl 28(b)(7) yn atodiad 5).

Darparwch dystiolaeth neu ddadansoddiad i gefnogi eich ateb lle bo'n bosib, gan gynnwys ystyriaeth o sut gellid bodloni'r gofyniad hwn mewn ffordd effeithiol a chymesur.

Cwestiwn 26: Beth fyddai'r ffordd orau i Ofcom gefnogi VSPs i barhau i arloesi er mwyn cadw defnyddwyr yn ddiogel?

Cwestiwn 27: Beth fyddai'r ffordd orau i Ofcom helpu busnesau i gydymffurfio â'r gofynion newydd?

Cwestiwn 28: Oes gennych chi farn ar y set o egwyddorion a nodir ym mharagraff 2.49 (diogelu a sicrwydd, rhyddid mynegiant, y gallu i addasu dros amser, tryloywder, gorfodi cadarn, annibyniaeth a chymesuredd), a chydbwyso'r tensiynau a allai godi rhyngddynt weithiau?

A2. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Sut mae ymateb

- A2.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y cwestiynau sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1 erbyn 5pm ar 24 Medi 2020.
- A2.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/video-sharing-platform-regulation>. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb. Rydyn ni'n croesawu ymatebion yn Gymraeg ac ni fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol nag ymatebion ag anfonwyd yn Saesneg.
- A2.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fydddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i VSPRegulation@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r [ddalen gyflwyno](#).
- A2.4 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain:
- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVD. Neu
 - Gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.
- A2.5 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).
- A2.6 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.
- A2.7 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.
- A2.8 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 1. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.
- A2.9 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â VSPRegulation@ofcom.org.uk

Cyfrinachedd

- A2.10 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar [wefan Ofcom](#), cyn gynted ag y byddant yn dod i law.
- A2.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fydddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.
- A2.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A2.13 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein [Telerau Defnyddio](#).

Y camau nesaf

- A2.14 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad ar y canllawiau arfaethedig yn y gaeaf.
- A2.15 Gallwch chi [gofrestru i gael diweddariadau post](#) i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A2.16 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 3.
- A2.17 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A2.18 Os hoffech chi drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth: corporationsecretary@ofcom.org.uk

A3. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

- A3.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol â phobl a chyrrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

- A3.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.
- A3.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.
- A3.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.
- A3.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.
- A3.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

- A3.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

A4. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen ymgynghori drwy e-bost):

CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn credu ei bod yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? _____

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw

Llofnod (os darperir copi papur)

A5. Darpariaethau'r AVMSD sy'n berthnasol i wasanaethau llwyfannau rhannu fideos

Erthygl 28a -Nodwch mae'r cynnwys allanol hwn ar gael yn Saesneg yn unig

1. For the purposes of this Directive, a video-sharing platform provider established on the territory of a Member State within the meaning of Article 3(1) of Directive 2000/31/EC shall be under the jurisdiction of that Member State.

2. A video-sharing platform provider which is not established on the territory of a Member State pursuant to paragraph 1 shall be deemed to be established on the territory of a Member State for the purposes of this Directive if that video-sharing platform provider:

(a) has a parent undertaking or a subsidiary undertaking that is established on the territory of that Member State; or

(b) is part of a group and another undertaking of that group is established on the territory of that Member State.

For the purposes of this Article:

(a) "parent undertaking" means an undertaking which controls one or more subsidiary undertakings;

(b) "subsidiary undertaking" means an undertaking controlled by a parent undertaking, including any subsidiary undertaking of an ultimate parent undertaking;

(c) "parent undertaking" means an undertaking which controls one or more subsidiary undertakings;

(d) "subsidiary undertaking" means an undertaking controlled by a parent undertaking, including any subsidiary undertaking of an ultimate parent undertaking;

(e) "group" means a parent undertaking, all its subsidiary undertakings and all other undertakings having economic and legal organisational links to them.

3. For the purposes of applying paragraph 2, where the parent undertaking, the subsidiary undertaking or the other undertakings of the group are each established in different Member States, the video-sharing platform provider shall be deemed to be established in the Member State where its parent undertaking is established or, in the absence of such an establishment, in the Member State where its subsidiary undertaking is established or, in the absence of such an establishment, in the Member State where the other undertaking of the group is established.

4. For the purposes of applying paragraph 3, where there are several subsidiary undertakings and each of them is established in a different Member State, the video-sharing platform provider shall be deemed to be established in the Member State where one of the subsidiary undertakings first began its activity, provided that it maintains a stable and effective link with the economy of that Member State.

Where there are several other undertakings which are part of the group and each of them is established in a different Member State, the video-sharing platform provider shall be deemed to be established in the Member State where one of these undertakings first began its activity, provided that it maintains a stable and effective link with the economy of that Member State.

5. For the purposes of this Directive, Article 3 and Articles 12 to 15 of Directive 2000/31/EC shall apply to video-sharing platform providers deemed to be established in a Member State in accordance with paragraph 2 of this Article.

6. Member States shall establish and maintain an up-to-date list of the video-sharing platform providers established or deemed to be established on their territory and indicate on which of the criteria set out in paragraphs 1 to 4 their jurisdiction is based. Member States shall communicate that list, including any updates thereto, to the Commission.

The Commission shall ensure that such lists are made available in a centralised database. In the event of inconsistencies between the lists, the Commission shall contact the Member States concerned in order to find a solution. The Commission shall ensure that the national regulatory authorities or bodies have access to that database. The Commission shall make information in the database publicly available.

7. Where, in applying this Article, the Member States concerned do not agree on which Member State has jurisdiction, they shall bring the matter to the Commission's attention without undue delay. The Commission may request ERGA to provide an opinion on the matter in accordance with point (d) of Article 30b(3). ERGA shall provide such an opinion within 15 working days from the submission of the Commission's request. The Commission shall keep the Contact Committee duly informed.

Erthygl 28b

1. Without prejudice to Articles 12 to 15 of Directive 2000/31/EC, Member States shall ensure that video-sharing platform providers under their jurisdiction take appropriate measures to protect:
 - (a) minors from programmes, user-generated videos and audiovisual commercial communications which may impair their physical, mental or moral development in accordance with Article 6a(1);
 - (b) the general public from programmes, user-generated videos and audiovisual commercial communications containing incitement to violence or hatred directed against a group of persons or a member of a group based on any of the grounds referred to in Article 21 of the Charter;
 - (c) the general public from programmes, user-generated videos and audiovisual commercial communications containing content the dissemination of which constitutes an activity which is a criminal offence under Union law, namely public provocation to commit a terrorist offence as set out in Article 5 of Directive (EU) 2017/541, offences concerning child pornography as set out in Article 5(4) of Directive 2011/93/EU of the European Parliament and of the Council ^(*) and offences concerning racism and xenophobia as set out in Article 1 of Framework Decision 2008/913/JHA.
2. Member States shall ensure that video-sharing platform providers under their jurisdiction comply with the requirements set out in Article 9(1) with respect to audiovisual commercial communications that are marketed, sold or arranged by those video-sharing platform providers.

Member States shall ensure that the video-sharing platform providers under their jurisdiction take appropriate measures to comply with the requirements set out in Article 9(1) with respect to audiovisual commercial communications that are not marketed, sold or arranged by those video-sharing platform providers, taking into account the limited control exercised by those video-sharing platforms over those audiovisual commercial communications.

Member States shall ensure that video-sharing platform providers clearly inform users where programmes and user-generated videos contain audiovisual commercial communications, provided that such communications are declared under point (c) of the third subparagraph of paragraph 3 or the provider has knowledge of that fact.

Member States shall encourage the use of co-regulation and the fostering of self-regulation through codes of conduct as provided for in Article 4a(1) aiming at effectively reducing the exposure of children to audiovisual commercial communications for foods and beverages containing nutrients and substances with a nutritional or physiological effect, in particular fat, trans-fatty acids, salt or sodium and sugars, of which excessive intakes in the overall diet are not recommended. Those codes shall aim to provide that such audiovisual commercial communications do not emphasise the positive quality of the nutritional aspects of such foods and beverages.

3. For the purposes of paragraphs 1 and 2, the appropriate measures shall be determined in light of the nature of the content in question, the harm it may cause, the characteristics of the category of persons to be protected as well as the rights and legitimate interests at stake, including those of the video-sharing platform providers and the users having created or uploaded the content as well as the general public interest.

Member States shall ensure that all video-sharing platform providers under their jurisdiction apply such measures. Those measures shall be practicable and proportionate, taking into account the size of the video-sharing platform service and the nature of the service that is provided. Those measures shall not lead to any ex-ante control measures or upload-filtering of content which do not comply with Article 15 of Directive 2000/31/EC. For the purposes of the protection of minors, provided for in point (a) of paragraph 1 of this Article, the most harmful content shall be subject to the strictest access control measures.

Those measures shall consist of, as appropriate:

- (a) including and applying in the terms and conditions of the video-sharing platform services the requirements referred to in paragraph 1;
- (b) including and applying in the terms and conditions of the video-sharing platform services the requirements set out in Article 9(1) for audiovisual commercial communications that are not marketed, sold or arranged by the video-sharing platform providers;
- (c) having a functionality for users who upload user-generated videos to declare whether such videos contain audiovisual commercial communications as far as they know or can be reasonably expected to know;
- (d) establishing and operating transparent and user-friendly mechanisms for users of a video-sharing platform to report or flag to the video-sharing platform provider concerned the content referred to in paragraph 1 provided on its platform;

- (e) establishing and operating systems through which video-sharing platform providers explain to users of video-sharing platforms what effect has been given to the reporting and flagging referred to in point (d);
- (f) establishing and operating age verification systems for users of video-sharing platforms with respect to content which may impair the physical, mental or moral development of minors;
- (g) establishing and operating easy-to-use systems allowing users of video-sharing platforms to rate the content referred to in paragraph 1;
- (h) providing for parental control systems that are under the control of the end-user with respect to content which may impair the physical, mental or moral development of minors;
- (i) establishing and operating transparent, easy-to-use and effective procedures for the handling and resolution of users' complaints to the video-sharing platform provider in relation to the implementation of the measures referred to in points (d) to (h);
- (j) providing for effective media literacy measures and tools and raising users' awareness of those measures and tools.

Personal data of minors collected or otherwise generated by video-sharing platform providers pursuant to points (f) and (h) of the third subparagraph shall not be processed for commercial purposes, such as direct marketing, profiling and behaviourally targeted advertising.

4. For the purposes of the implementation of the measures referred to in paragraphs 1 and 3 of this Article, Member States shall encourage the use of co-regulation as provided for in Article 4a(1).
5. Member States shall establish the necessary mechanisms to assess the appropriateness of the measures referred to in paragraph 3 taken by video-sharing platform providers. Member States shall entrust the assessment of those measures to the national regulatory authorities or bodies.
6. Member States may impose on video-sharing platform providers measures that are more detailed or stricter than the measures referred to in paragraph 3 of this Article. When adopting such measures, Member States shall comply with the requirements set out by applicable Union law, such as those set out in Articles 12 to 15 of Directive 2000/31/EC or Article 25 of Directive 2011/93/EU.
7. Member States shall ensure that out-of-court redress mechanisms are available for the settlement of disputes between users and video-sharing platform providers relating to the application of paragraphs 1 and 3. Such mechanisms shall enable disputes to be settled impartially and shall not deprive the user of the legal protection afforded by national law.
8. Member States shall ensure that users can assert their rights before a court in relation to video-sharing platform providers pursuant to paragraphs 1 and 3.
9. The Commission shall encourage video-sharing platform providers to exchange best practices on co-regulatory codes of conduct referred to in paragraph 4.
10. Member States and the Commission may foster self-regulation through Union codes of conduct referred to in Article 4a(2).

^[*1] Directive 2011/93/EU of the European Parliament and of the Council of 13 December 2011 on combating the sexual abuse and sexual exploitation of children and child pornography, and replacing Council Framework Decision 2004/68/JHA ([OJ L 335, 17.12.2011, p. 1](#)).’;"